# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN Y MÔR

Pennaeth/ Headteacher:
Mrs Rhian James- Collins

Annwyl Riant / Warcheidwad 19.07.19

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn academaidd, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i'r holl ddisgyblion am eu cyfraniad cadarnhaol a'u cyflawniad gwych yn ystod y flwyddyn.

Hoffwn estyn ein dymuniadau gorau i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn arbennig, wrth iddynt ymadael â'r ysgol ar ddiwedd y tymor hwn a dechrau pennod newydd a chyffrous yn eu hanes. Diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol dros y blynyddoedd a phob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r staff a'r llywodraethwyr am eu hymroddiad a'u cyfraniad gwerthfawr ac i chi fel rhieni am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus ar hyd y flwyddyn.

Mae'n braf cyhoeddi bod cais Miss Lydia Harding i ymgymryd ag hyfforddiant fel athrawes drwyddedig yn yr ysgol wedi ei derbyn. Mae Miss Harding wedi bod yn gweithio fel cynorthwy-ydd dysgu â chyfrifoldeb dros ddosbarthiadau yn ystod cyfnodau Cynllunio, Paratoi ac Asesu athrawon yn ogystal â chefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ers nifer o flynyddoedd. Bydd Miss Harding yn dysgu yn y dosbarth Meithrin yn ystod absenoldeb Mrs Kelly Jones o fis Medi ymlaen.

Dymunwn yn dda i Miss Lucy Furlong a Miss Lauren Lewis sy'n ein gadael ar ddiwedd y tymor. Rydym yn ddiolchgar iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr dros y flwyddyn diwethaf a dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol.

Croesawn Miss Sophie Griffiths fydd yn ymuno gyda ni fel athrawes rhan-amser a thros dro ynghyd a Miss Tina Coleman a Miss Rhiannon Harris sy'n ymuno fel cynorthwy-wyr dros dro o fis Medi, 2019.

Ar ran holl staff yr ysgol hoffwn ddymuno gwyliau da a hapus i chi gyd ac edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu pawb yn ôl ym mis Medi.

Yn ddiffuant,

Rhian James Collins

Pennaeth

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansa, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

## Dyddiadau a gwybodaeth bwysig ar gyfer Tymor yr Hydref, 2019

| | |
|---|---|
| **02.09.19** | Hyfforddiant Mewn Swydd |
| **03.09.19** | Hyfforddiant Mewn Swydd |
| **04.09.19** | Hyfforddiant Mewn Swydd |
| **05.09.19** | Ysgol yn ail-ddechrau |
| **10.09.19** | Noson Groesawu Blynyddoedd 1-6 |

### Gweithdrefnau gollwng plant ar ddechrau a diwedd y dydd ysgol

Mae gatiau'r ysgol yn agor am 8:30 a.m. Gallwch ollwng eich plentyn a'i drosglwyddo i ofal aelod o staff ar ôl yr amser hyn. Mae pob disgybl yn cael eu goruchwylio gan staff nes bod y diwrnod ysgol yn dechrau am 8:50 a.m. Caniateir i rieni disgyblion y **Dosbarth Meithrin** hebrwng eu plant i iard y meithrin. Mae drysau'r dosbarth Meithrin yn agor am 8.40 a.m a gallwch adael y disgyblion gyda'r athrawon hyd nes bod yr ysgol yn dechrau am 8.50 a.m

Anogir rhieni plant sy'n newydd i'r **Dosbarth Derbyn** ollwng eu plant wrth y gât, fodd bynnag, os yw eich plentyn yn bryderus ar ddechrau'r tymor mae croeso i chi fynd gyda nhw ar i'r buarth yn y diwrnodau/wythnosau cyntaf hyd nes eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ac annibynnol. Bydd staff y dosbarth ar yr iard i hwyluso'r broses.

Gofynnir i rieni lenwi ffurflen hysbysu'r ysgol o enwau'r oedolion sydd wedi'u hawdurdodu i gasglu eu plant. Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol os oes unrhyw newidiadau i'r trefniadau ar gyfer casglu eu plant. Nid ydym yn rhyddhau plentyn i ofal oedolyn arall os na fyddwn wedi cael gwybod ymlaen llaw o newid i'r drefn arferol.

### Cŵn ar yr iard

Ni chaniateir cŵn ar iard yr ysgol heblaw am gŵn arwain y deillion.

**Gwisg Ysgol**

Teimlwn fod gwisg ysgol yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn a balchder. I'r perwyl hwn annogir eich plentyn i wisgo gwisg yr ysgol. Gallwch brynu'r wisg gyda logo'r ysgol o Nash Sports, Sgeti, J S Leisurewear, Ty Coch;, Bergoni Llansamlet neu ar-lein oddi wrth cwmni Tesco.* Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau newydd Llywodraeth Cymru o fis Medi 2019 ymlaen, nid oes disgwyl i chi brynu dillad sydd â logo'r ysgol. Bydd rhanddeiliaid yr ysgol yn ymgynghori ymhellach ynglyn â'r wisg ysgol yn ystod Tymor yr Hydref ac yn gwneud newidiadau statudol perthnasol yn unol â'r rheoliadau newydd.

Gofynnwn i chi labelu bob dilledyn os gwelwch yn dda.
Mae cymorth ariannol ar gael i helpu rhieni i brynu gwisg ysgol. Am fwy o wybodaeth cliciwch ar y linc isod:-

www.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad

**Gwisg ysgol**
Siwmper goch

Crys polo gwyn

Trowsus, sgert, siorts neu ffrog ddu

Ffrog 'gingham' coch a gwyn (dewisol yn yr haf)

Esgidiau du

**Presenoldeb a Phrydlondeb.**

Mae'n bwysig iawn fod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon. Os ydych yn cyrraedd yr ysgol ar ôl i'r gloch ganu **mae'n rhaid** i chi gofrestru presenoldeb eich plentyn yn y swyddfa. Os ydych yn hwyr rhaid dod â'ch plentyn i'r swyddfa i gofrestru. Ni fydd marciau hwyr yn cael eu rhoi yn y dosbarth. Mae'n fater o iechyd a diogelwch ein bod yn gwybod pwy sydd yn bresennol ar safle'r ysgol a phwy sy'n absennol.
Os nad ydych yn cofrestru yn y swyddfa bydd eich plentyn yn derbyn marc absenoldeb

anawdurdodedig.

Nid yw hi'n briodol i adael plentyn wrth brif fynedfa'r ysgol – rhaid i rieni ddod i'r swyddfa i gofrestru eu plant ac arwyddo'r llyfr hwyr. **Cyfrifoldeb y rhiant yw hysbysu'r ysgol fod plentyn yn hwyr – nid y plentyn.**

Bydd achosion o hwyrni parhaus (mwy na theirgwaith) yn cael eu cyfeirio i'r swyddog Lles Addysg.

Cofiwch roi gwybod i'r swyddfa os yw eich plentyn yn absennol **cyn 9.30 y bore**

Os oes apwyntiad meddygol gan eich plentyn, gan gynnwys apwyntiad â'r deintydd, optegydd ac ati, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol o flaen llaw er mwyn medru cofrestru absenoldeb eich plentyn gyda chaniatâd. Os yw eich plentyn yn dost a fyddech cystal â chysylltu â'r ysgol ar y bore cyntaf, naill ai drwy ffonio neu drwy gyfrwng 'Parent Mail' er mwyn ein hysbysu o'r salwch. Os na fyddwn yn clywed oddi wrthych byddwn yn cysylltu â chi naill ai drwy neges destun neu drwy ffonio ar y bore cyntaf o absenoldeb. Os nad yw'r ysgol yn derbyn eglurhad am absenoldeb eich plentyn bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel absenoldeb heb ganiatâd.

Os ydych yn dymuno hawlio cyfnod o absenoldeb a fyddech cystal â chwblhau'r ffurflen berthnasol a'i dychwelyd i'r ysgol er mwyn cael ei chymeradwyo gan y Pennaeth.
**Nid ydym yn annog rhieni i fynd â'u plant ar wyliau yn ystod y tymor ysgol.**
**Cofnodir absenoldeb oherwydd gwyliau fel absenoldeb heb ganiatad.**

## Clwb Brecwast

Mae'r Clwb Brecwast ar agor yn foreol o 7.50 a.m tan 8.30 a.m ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Codir tal o £1.00 i'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r clwb rhwng 7.50 a.m ac 8.15 a.m Yn ystod y cyfnod hwn gall y plant fynd i'r neuadd i fwynhau grawnfwyd a thost yn ogystal â diod. Ni chaniateir mynediad wedi 8.25 a.m. Sicrheir bod disgyblion yn cael eu goruchwylio yn y neuadd ac ar yr iard yn ystod y cyfnod hwn hyd at amser cofrestru am 8.50yb.

## Clwb Gofal (Clwb ar ol Ysgol)

Cost y pen yw £10 am un plentyn a £5 os oes brawd neu chwaer. Darperir lluniaeth ysgafn yn ystod y sesiwn sy'n dechrau am 3.20 p.m ac yn gorffen am 5.50 p.m.

**Arian Cinio**

Cost cinio ysgol o Fedi 2019 yw £2.30 y dydd neu £11.50 am wythnos gyfan. Bydd y fwydlen newydd ar gael ar wefan yr ysgol ac ar wefan Cyngor Dinas Abertawe ar ddechrau'r tymor newydd er mwyn i'ch plentyn fedru gwneud dewisiadau yn y bore.

Mae angen gwneud taliadau am ginio ar system ar-lein yr ysgol ' SQuid'.

**Polisi di-gnau**

Gan fod gennym nifer o blant yn yr ysgol sy'n dioddef o alergedd cnau difrifol hoffwn eich atgoffa bod ein hysgol yn ysgol ddi-gnau. Mae hyn yn golygu na ddylid dod â'r eitemau canlynol i'r ysgol:_

- Pecynnau o gnau
- Brechdanau menyn cnau
- Bariau ffrwythau a grawnfwyd sy'n cynnwys cnau
- Bariau siocled neu losin sy'n cynnwys cnau
- Rholiau hadau Sesame (gall plant sydd ag alergedd i gnau hefyd gael adwaith difrifol i sesame)
- Cacennau wedi'u gwneud â chnau

Mae gennym bolisi i beidio â defnyddio cnau mewn bwydydd a baratowyd ar y safle fodd bynnag, ni allwn warantu rhag olion cnau.

**Taliadau cinio a gwibdeithiau ysgol**

Yr ydym yn defnyddio system electronig **'sQuid'** i dalu am ginio ysgol a gwibdeithiau ysgol.

**Gwirfoddolwyr**

Diolch o galon i'r holl rieni a ffrindiau sydd eisoes wedi helpu gydag amrywiaeth o weithgareddau eleni. Mae eu cyfraniad gyda gweithgareddau fel darllen, garddio, cynnal a chadw a gwibdeithiau wedi bod yn amhrisiadwy. **DIOLCH!**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansa, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

Rydym bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu ac i rannu eu sgiliau. Os ydych yn gallu helpu mewn unrhyw ffordd e.e. ar wibdeithiau ysgol neu yn gallu rhannu sgil arbennig/ cyfrannu mewn unrhyw ffordd cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

**Holiaduron i Rieni**

Diolch i bawb oedd wedi cwblhau'r holiadur i rieni. Dychwelwyd 57 holiadur i gyd. Roedd hyn tua hanner y nifer a dderbyniwyd llynedd. 'Rwyf wedi atodi canfyddiadau'r holiadur ysgol isod. Mae'r canlyniadau yn galonogol a diolch i bawb a ychwanegodd sylwadau adeiladol. Mae'r rhain yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr a byddant yn cael eu defnyddio i gynllunio ymlaen a'n helpu i barhau i wella ein darpariaeth a'r gofal yr ydym yn cynnig. Byddwn yn cynnwys y sylwadau cadarnahol a dderbyniwyd gennych yn ein prospectws ysgol y flwyddyn nesaf.

**Canlyniadau Holiaduron i Rieni**

| | Cwestiynau / *Questions*<br>Ar gyfer pob un o'r datganiadau isod, ticiwch y blwch sy'n adlewyrchu'ch barn orau mewn perthynas a ysgol eich plentyn.<br>*For each of the statements below, please tick the box which best reflects your views in relation to your child's school.* | Cytuno'n gryf/ *Strongly* | Cytuno / *Agree* | Anghytuno */ Disagree* | Anghytuno'n gryf */ Strongly* | Ddim yn gwybod / *Don't know* | Heb ateb/ *Did not* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae rheolaeth yr ysgol o ddydd i ddydd yn effeithiol<br>*The everyday running of the school is effective* | 33 | 62 | 2 | 2 | | |
| 2 | Mae'r ysgol yn gymuned hapus<br>*The school is a happy community* | 41 | 55 | 2 | | | 2 |
| 3 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon<br>*My child likes this school* | 49 | 47 | 4 | | | |
| 4 | Rwy'n hapus â'r wybodaeth a dderbyniaf am fywyd yr ysgol e.e. Prospectws Ysgol, llythyron, neges destun, y wefan cylchlythyron<br>*I am happy with the information I receive about school life e.g School Prospectus, letters, newsletters, website, text messages* | 26 | 46 | 21 | 5 | | 2 |
| 5 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol<br>*My child was helped to settle in well when he or she started at the school* | 37 | 51 | 2 | 2 | 4 | 4 |
| 6 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol<br>*My child is making good progress at school* | 32 | 57 | 4 | 2 | | 4 |
| 7 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol<br>*Pupils behave well in school* | 30 | 64 | 4 | 2 | | |
| 8 | Mae'r addysgu yn dda<br>*The teaching is good* | 30 | 60 | 5 | | | 5 |
| 9 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei | 32 | 65 | 2 | | | 2 |

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansa, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | orau<br>*Staff expect my child to work hard and do his or her best* | | | | | | |
| 10 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch<br>*Staff treat all children fairly and with resepect* | 30 | 55 | 4 | | | 10 |
| 11 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd<br>*My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise* | 25 | 53 | 12 | | | 10 |
| 12 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol<br>*My child is safe at school* | 36 | 64 | | | | |
| 13 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol<br>*My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs* | 18 | 37 | 9 | 4 | | 33 |

| | | Cytuno'n gryf/ *Strongly* | Cytuno / *Agree* | Anghytun o/ *Disagree* | Anghytun o'n gryf / *Strongly* | Ddim yn gwybod / *Don't* | Heb ateb/ *Did not* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Rwy'n cael gwybodaeth am gynnydd fy mhlentyn<br>*I am kept informed about my child's progress* | 23 | 58 | 14 | 2 | | 4 |
| 15 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem<br>*I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem* | 35 | 58 | 5 | | | 2 |
| 16 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb<br>*The school helps my child to become more mature and take on responsibility* | 25 | 61 | 4 | | | 10 |
| 17 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau<br>*There is a good range of activities including trips or visits* | 25 | 45 | 18 | 9 | | 4 |
| 18 | Mae'r wisg ysgol yn creu delwedd bositif o'r ysgol<br>*The school uniform creates a positive image of the school* | 29 | 62 | 4 | 2 | | 4 |
| 19 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion<br>*I understand the school's procedure for dealing with complaints* | 22 | 43 | 30 | 2 | | 4 |
| 20 | Rwy'n hapus ag ymddangosiad allanol/mewnol yr ysgol<br>*I am happy with the internal/external appearance of the school* | 11 | 32 | 27 | 27 | | 3 |

Meysydd a amlygwyd fel rhai sydd angen eu gwella yn arbennig yw cyfathrebu, teithiau ysgol, ymddangosiad mewnol ac allanol yr ysgol, Addysg Gorfforol a'r drefn cwynion. Mae'r rhain yn debyg iawn i ganfyddiadau llynedd er rhaid pwysleisio bod newidiadau pendant wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn i wella ar yr holl agweddau yma.

Yr ydym yn croesawu unrhyw adborth adeiladol fydd yn ein helpu i wella'r meysydd yma a'r

gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig. Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad.

**Delio â Chwynion**

Mae'r holiadur i rieni yn dangos hefyd bod llawer yn ansicr ynglŷn â threfniadau gwneud cwyn yr ysgol. Cofiwch bod gennym bolisi drws agored ac y gallwch drafod unrhyw bryderon sydd gennych gyda ni. Gallwch siarad ag athro/athrawes dosbarth eich plentyn yn y lle cyntaf os yw hynny'n briodol ac yn berthnasol i'r broblem neu cysylltwch â'r Pennaeth yn uniongyrchol.

**Yr ydym yn cydnabod bod y cyfryngau cymdeithasol yn fforwm da i gyfathrebu a rhannu syniadau ond nid dyma'r lle delfrydol i fynegi anfodlonrwydd neu gwyno ynglŷn â gweithdrefnau'r ysgol neu fater sy'n eich poeni. Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio gweithdrefnau'r Polisi Cwynion.**

Mae'r camau hyn wedi'u hamlinellu ym Mholisi Cwynion yr ysgol sydd ar ein gwefan.